

RHAGARWEINIAD

Yn y DU, mae'r galw am geirios yn llawer mwy na'r cynnyrch cartref. Ceir rhyw 380ha o berllannau ceirios masnachol yn y DU. Nid yw'r arwynebedd hwn yn ateb ond 5% (yn ôl gwerth) o'r galw blyneddol am geirios. Cael eu mewnfario y mae'r 95% sy'n weddill, sy'n werth tua £40 yn y siopau. Mae'r posibiladau o ran cynyddu cynnyrch masnachol ceirios yn dda, yn arbennig os defnyddir mathau sy'n estyn y tymor traddodiadol.

Ceirios ar gyfer cynhyrchu ffrwythau yw canolbwynt y ffeithlen hon. Fodd bynnag, ceir llawer o alw am bren ceirios, a gall hyn fod yn ffynhonnell arall o incwm pan geir gwared â choed.

Dosberthir ceirios bwytdwy fel rhai melys neu rai sur. Daw ceirios melys yn bennaf o *Prunus avium* (y ceirios gwyllt); o *Prunus cerasus* yn bennaf y daw ceirios sur. Ceirios melys yw'r rhai pwysicaf ym marchnad y DU.

Mae'r tymor ceirios yn y DU yn fyr iawn, a cheirios cartref ar gael ar raddfa eang yn ystod Gorffennaf yn unig. Mae ymchwil ddwys yn cael ei gwneud i'r posibiladau o ddatblygu cyltiffarau newydd a fydd yn estyn y tymor, fel y cynhyrchir llawer o ffrwythau dymunol, a'r planhigion hefyd yn gallu gwrthsefyll afiechydon cyffredin.

SAFLE A PHLANNU

Bydd coed ceirios yn tyfu ar amrywiaeth o briddoedd, ond ni fyddant yn goddef gorlif o ddŵr ar eu gwreiddiau; mae'n well osgoi cleiau trwm. Dylid hefyd osgoi priddoedd sy'n fas, sydd dan ddŵr yn y gaeaf, neu sy'n sychu'n gyflym yn ystod yr haf.

Mae angen golau ar geirios, ynghyd â llif da o aer i gynorthwyo i leihau heintiau ffwngaid a bacteriol.

Mae amrywiaeth eang o systemau plannu wedi'i datblygu ar gyfer cynhyrchu ceirios yn fasnachol. Bydd y system a ddewisir yn dibynnu ar ffactorau megis topograffeg y safle, y peiriannau sydd ar gael, a'r gweithwyr. Mae dwysedd plannu'n amrywio o ryw 600 o goesynnau yr hectar ar gyfer systemau o fath "ffiol" hyd at ryw 1,500 o fonion yr hectar ar gyfer coesynnau sengl ar wreiddgyffion corachol.

LLUOSOGI A GWREIDDGYFFION

Lluosogir coed ceirios ar gyfer cynhyrchu ffrwythau trwy impio ar wreiddgyff addas. Mae ymchwil sylweddol hefyd yn cael ei gwneud tuag at wella nodweddion gwreiddgyffion. Gisela 5 yw'r gwreiddgyff mwyaf cyffredin ei ddefnydd.

Gan fod perllannau ceirios yn gymharol brin, nid yw cael hyd i ffynonellau coed bob amser yn hawdd, a gall y mathau sydd ar gael fod yn gyfyngedig. Mae cyflenwyr posibl yn cynnwys:

- Adams Apples (www.adamsappletrees.co.uk)



- Y Ganolfan Ymchwil Coedamaeth (www.agroforestry.co.uk)
- Frank Matthews (www.frankpmatthews.com)

Rhaid dewis cyltifaru'n ofalus i sicrhau peilliad, am fod y rhan fwyaf o fathau'n eu ffrwythloni eu hunain.

PLÂU A CHLEFYDAU

Mae ceirios yn dueddol o ddiodef gan amryw o blâu a chlefydau, a hynny'n gwneud cynhyrchu'n broffidiol yn fwy anodd. Mae dewis mathau (yn wreiddgyff ac yn frigau impiedig) sy'n gallu gwrthsefyll afiechyd o bwys allweddol o ran lleihau colledion ariannol. Mae llawer o glefydau ffwngaid a bacteriol yn cael mynediad trwy glwyfau, felly dylid bod yn ofalus iawn wrth docio a chyflawni tasgau rheolaethol i osgoi niwed a thraws-heintio. Dylid tynnu pren sydd wedi'i niweidio neu'n afiach o'r berllan a'i losgi. Mae'r problemau mwyaf nodedig yn cynnwys: pydredd brown; clefyd deilen arian; cancr bacteriol; clefyd gwywo ar flodau, a *Phytophthora spp.*

Gall adar ddistrywio cnwd ceirios; bydd defnyddio rhwydi'n lleihau colledion. Gall cwningod a llygod y dŵr achosi niwed difrifol i unrhyw goed ifainc, yn cynnwys ceirios. Gall amryw o bryfed a'u larfae beri niwed sy'n achosi colledion ariannol. Mae'r pryf du ceirios o bwys arbennig.

CYNNYRCH A CHYWAIN

Mae perllannau masnachol sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn cynhyrchu 4 – 9 o dunelli metrig yr hectar mewn blwyddyn.

Caiff ceirios melys ar gyfer y farchnad ffres eu cywain o hyd â llaw, gan adael y coesyndau ynghlwm. Mae cywain yn digwydd pan fydd y ffrwythau'n aeddfed, ond yn dal yn gadarn, a hynny'n lleihau'r difrod o'u trin. Mae'n bwysig cadw'r ffrwythau mor oer ag sydd bosibl yn ystod y cywain, e.e. wrth roi'r biniau cywain yn y cysgod.

RHEOLI WEDI'R CYWAIN

Mae oeri'r ffrwythau ar ôl eu cywain, a'u cadw'n oer wedyn, yn hanfodol er mwyn eu cadw mewn cyflwr da. Yn gyffredinol, oerir y ffrwythau trwy eu trochi mewn dŵr oer, gan ostwng eu tymheredd i <7°C. Ar ôl eu didoli, dylid wedyn storio'r ceirios ar 0°C.

COSTAU A REFENIWIAU

Mae prisiau stociau'n amrywio, o ryw £8/ coesyn i £15/ coesyn, yn ôl y math a'r nifer a archebir. Mae costau eraill i'w hystyried yn cynnwys: paratoi'r tir; rheolaeth gyfredol a rheoli plâu / afiechydon (yn cynnwys rhwydi a sgriniau coed os defnyddir hwy); gwaith cywain; offer a all oeri a lle storio; marchnata (os gwerthir yn uniongyrchol); a thrafnidiaeth (os yn gyfanwerthol).

Roedd prisiau cyfanwerthol ceirios yn ystod 2009 yn amrywio rhwng £1.50/kg am ffrwythau eilradd a £5.00/kg am ffrwythau o'r radd flaenaf ar ddechrau a diwedd y tymor (pan fydd llai o geirios o Brydain ar gael). Gall prisiau adwerthol gyrraedd £10/kg mewn Marchnadoedd Ffermwyr dethol, er bod rhyw £6/kg yn fwy arferol.